

# Gair bach Bethlehem 10



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 10 2020

## Fi – T – Efe

## Delwyn Sion

Eisteddfod yr Urdd! A miloedd o blant a ieuencid Cymru'n teithio i Ddinbych i gystadlu. Mynd a dod ar hyd heolydd y wlad, o'r De i'r Gogledd a nôl eto! Ahh! Ond na, dim eleni. Sneb yn ca'l mynd na dod! Wel, heblaw bo chi'n gweithio i Boris Johnson ac awydd trip i Durham! Ie, rhyw "Cummings and goings" i rai, ond dim i eraill! Beth bynnag, nôl at yr Eisteddfod. Eisteddfod T eleni, a nôl yn oes yr arth a'r blaidd roedd Eisteddfod yr Urdd yn bwysig iawn yn Tŷ ni,



ac yn bwysicach fyth yng nghoridorau Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Deuawdau, pedwarawdau, corau, partïon Cerdd Dant a pharti Noson Lawen....a do, wnes i joio'r job lot! Ac yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe ym 1971 fe wnes i gystadlu ar y Gân "Bop" (dim cysylltiad a Corona) Felly, ie, rhowch y bai i gyd ar yr Urdd !!! Ro'dd 'na steddfod arall, yr Eisteddfod bwysica'n ein cwm ni, Eisteddfod y Glowyr, a'i arwyddair answyddogol, "Gwna dy Orau". Unwaith 'nilles i erio'd,... a'r wobwr? Wel, chredwch neu beidio, brwsh gwallt a chrib! 'Na chi wobwr i fab i farbwr!

Am wn i sdim sôn am Eisteddfod yn y Beibl, digon o Wyliau gwahanol, ond yr un Eisteddfod. Ond mi ro'dd 'na gystadlu, a hynny ymhlith neb llai na'r disgyblion. Cystadlu a dda'th i'r wyneb wrth iddyn' nhw ofyn i'r Iesu "prun ohonynt oedd y mwyaf?" (Luc 9:46) Be' na'th yr Iesu? Rhoi plentyn yn eu canol. Nawr trwy'r wythnos hon bydd plant yn ca'l "centre stage" yn yr Eisteddfod, ond yn oes yr Iesu, do'dd dim sylw'n cael ei roi i blant, ro'dd plant yn ddibwys. Pwrpas plentyn o'dd bod yn was, i wasanaethu. A dyna ro'dd yr Iesu'n disgwyl gan ei ddisgyblion, gwasanaeth. Ond mae e hefyd yn ychwanegu'r geir hyn, "y lleiaf yn eich plith, hwnnw sy'n fawr." Hynny yw, "gostyngeiddrwydd bois, gostyngeiddrwydd." Mae'n debyg iawn i ddywediad arall o eiddo'r Iesu, "yr olaf a fyddant flaenaf", adnod llawn gobaith i'r isa' a'r rhai dan ormes mewn cymdeithas. Adnod wych, adnod a allai fod yn arwyddair i'r disgyblion, ond adnod bydde'n ca'l fawr o groeso mewn unrhyw Eisteddfod heb fod 'na weiddi mawr bod "Cam" wedi bod! Na, bydde'r olaf a fyddant flaenaf yn dda i ddim fel arwyddair Eisteddfod yr Urdd, ond 'na fe, ma' gyda'r mudiad arbennig yma arwyddair arbennig yn barod, arwyddair sy'n gyfarwydd i ni gyd, "Ffyddlon i Gymru, i Gyd Ddyn ac i Grist". Sdim angen dim gwell ar ddisgyblion ein dyddie ni.

O.N. Rhag ofn bo chi moyn gw'bod, ail ges i ar y Gân Bop yn Abertawe!

Mewn gostyngeiddrwydd, *Delwyn*

## EISTEDDFOD AR-LEIN I'R PLANT

Mae gwahoddiad i blant Bethlehem ymuno mewn dipyn o sbort eisteddfodol ar "Zoom" fore Sul nesaf yma – Mai 31.

Cewch y manylion i gyd ar dudalen 2.

## HEFYD yn y 10<sup>fed</sup>

### RHIFYN HWN:

Ysgol Sul a Gair bach	2
Myfyrdod	3
Agape	4
R W P a Huw	5 & 6
Pwy ydi Pwy & Hapusrwydd	7
Tillich & Diolch	8
Ar daith drwy Rwsia	9
Hiwmor o'r Pulpud	9
Odlau'r Garth	10
Llun o'r archif	10

### **Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:**

Joy Glyn a'r teulu, Pentyrch –  
Joy wedi colli ei brawd yng  
nghyfraith, Huw Davies, priod  
Dilys, yn ei gartref ym Mryn  
Berian, sir Benfro.

*Cofion hefyd at **bawb** o'n  
haelodau a'u teuluoedd sydd  
wedi bod yn anhwylyd yn  
ddiweddar.*

## Cyfle i Gystadlu Dydd Sul

Gan ei bod hi'n wythnos Eisteddfod T yr Urdd, cafodd Delwyn y syniad o gynnal Eisteddfod rithiol Bethlehem i blant am 10.30 bore dydd Sul yma, 31 Mai. Gallwch wneud unrhyw beth – canu, llefaru, actio, dweud jôcs, dawnsio, tynnu llun, tynnu ffotograff, dweud stori – unrhyw beth! A bydde'n hyfryd petai gyment ohonoch a phosibl yn medru cymryd rhan – am 'bach o hwyl' wrth gwrs! Ac y mae croeso i bawb i ddod i ymuno gyda ni. Dyma gyfeiriad Zoom ar gyfer dydd Sul yma:

<https://us04web.zoom.us/j/71213226686?pwd=N09XM3pzS09HZU1kSHlnbkqzRFAXdz09>

ID: 712 1322 6686

Cyfrinair: 9mcwnb

[Does dim raid i chi deipio yr uchod fesul rhif a llythyren. Ar gyfrifiadur, amlygwch y llinell gyfan, (*highlight*) yna Pwyswch "Ctrl" & "C". I'w pastio o'r newydd yn y man priodol, pwyswch "Ctrl" & "V"]

## Dyma dipyn o hanes y Sul diwethaf yn yr Ysgol Sul ar-lein

Gofynnais i Delwyn am awgrymiadau ar gyfer tasgau i blant yr Ysgol Sul ar gyfer dydd Sul dwetha, 24 Mai. A dyma beth ddaeth:

- Beth am amrywiaeth o dasgau at y Sul:
- Dod o hyd i hanes Florence o Kenya, a hanes Florence Nightingale;
- Gwneud llun: unrhyw beth yn gysylltiedig a Gwaith Cymorth Cristnogol, neu Affrica, neu lun o Florence Nightingale a'i Lamp;
- A falle, dod o hyd i wybodaeth am nyrs o Gymru, sef Betsi Cadwaladr, oedd yn gweithio gyda Florence.

Ac fe ymatebodd y plant yn wych. Dyma rai ffeithiau a ddaeth oddi wrth Mabon, Megan, Awen a Sara:

Bob dydd mae Florence yn gorfod mynd i gasglu dŵr ar gyfer ei theulu, hefyd mae hi yn tyfu llysiau, mynd i gyrchu mêl, cnau a llawer mwy!

### Betsi Cadwaladr

- Cafodd ei geni yn Llany Cil ger y Bala yn 1789 a bu farw yn 1860
- Roedd hi'n un o 16 o blant a bu farw ei mam pan oedd hi'n 5 mlwydd oed
- Yn 65 mlwydd oed aeth i fod yn nyrs yn Rhyfel y Crimea
- Buodd yn gweithio gyda Florence Nightingale ond roedd y ddwy yn dod o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol ac yn anghydweled yn aml
- Enwir Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yng ngogledd Cymru ar ei hôl

### Florence Nightingale

- Ganwyd ar y 12fed o Fai 1820 a bu farw yn 90 mlwydd oed yn y flwyddyn 1910
- Ei llysenw oedd "The Lady with the Lamp" gan ei bod yn cario golau gyda hi wrth fynd o gwmpas y wardiau, a roedd ei gweld hi'n cysuro'r cleifion
- Roedd hi'n dod o gefndir breintiedig iawn
- Fe wnaeth sefydlu ysgol nyrsio yn Llundain gan osod y sail i nyrsio fel gyrfa broffesiynol fodern

Heulwen Jones [heulwen@btinternet.com](mailto:heulwen@btinternet.com) 07779 360614

## GAIR BACH O'R GWAELOD



Dros y degawdau, mae tiriogaeth y Barcud Coch wedi ymledu dros ardal ehangach o Gymru. Roedden nhw wedi goroesi yn fforestydd canolbarth Cymru ac erbyn hyn mae nhw wedi ymestyn tua'r Gogledd a'r De. Y gynffon fforchog sy'n gwneud yr aderyn yn un cymharol hawdd ei adnabod Rhaid cyfaddef na welais i un erioed uwchben Pentyrch tan yr wythnos hon a rhuthrais i dynnu llun (digon salw) ar ffôn symudol! Ydych chi wedi gweld un yn lleol?

Hwyl, Ifan

Wrth fynd ati i rhoi trefn ar silff o lyfrau yn ddiweddar, mi ddes ar draws un gyfrol a aeth a mi nôl i'r 70'au cynnar. Cofio ei fod wedi gwneud argraff mawr arnaf ar y pryd ac felly penderfynais ei ail ddarllen. Ac er bod 50 mlynedd wedi mynd heibio, yr un oedd y wefr. Llyfr wedi ei ysgrifennu yn Saesneg yn dwyn y teitl *"Mister God, this is Anna"*.

Mae'r darllenwr yn camu'n syth mewn i strydoedd yr *East End* yn Llundain yn niwedd 30'au'r ganrif ddiwetha. Yno mae Fynn, awdur y llyfr, yn ôl ei arfer, yn crwydro a hithau'n nosi ac mae'n dod ar draws merch fach 5 oed yn eistedd ar y palmant. Bu sgwrs gyfeillgar rhyngddynt ac yna mae'n cynnig mynd a hi nôl i'w chartre a dyma hi'n ateb, *"I don't have nowhere, I have runned away"*.

Yn naturiol felly mae'n holi am ei rhieni, hithau'n dweud yn blwmp ac yn blaen, *"Oh she's a cow and he's a sod and I ain't going to no bleeding cop-shop, I'm going to live with you"*. Trwy lwc neu ryw ryfedd wyrth, felly bu. Cael ei chrosawu mewn i deulu hapus, cynnes Fynn a breichiau agored ei fam.

Ar y pryd roedd Fynn yn 19 oed, wedi derbyn ond ychydig o addysg elfennol, ond dyma ddyn oedd yn berchen ar feddwl craff, yn llawn dychymyg ac yn ysu am fwy o ddealltwriaeth o'r byd o'i amgylch. Ac yn 5 oed, dyma'n union ddisgrifiad o Anna hefyd. Y ddau wedi cyfarfod drwy hap a damwain ond ar yr un donfedd. Mae'r llyfr yn olrhain perthynas ryfeddol y ddau wrth iddynt geisio datrys rhai o wirioneddau mawr ein bodolaeth.

Ffrind pennaf Anna oedd *Mister God*. Fe oedd y person mwyaf pwysig yn ei bywyd ac mi fyddai'n siarad arno mewn ffordd hollol naturiol. Wrth ddweud ei phader dwedai - *"Mister God, this is Anna talking"* ac mi fyddai'n gwrthod help Fynn petai rhywbeth yn ei phoeni gan ddweud *"It's for me and Mister God"*.

Roedd yn gyfarwydd a gwasanaethau'r eglwys ond doedd rhain yn golygu dim iddi. Y gweinidog yn gofyn:

*"Do you go to Church?"*

*"No"*.

*"Why not?"*

*"Because I know it all"*.

*"What do you know?"*


*"I know to love Mister God and people and cats and dogs and spiders and everything else, with all of me"*.

Mi fyddai Fynn yn darllen gydag Anna bob nos - llyfrau amrywiol ac addysgiadol a hithau'n llyncu'r holl wybodaeth ac yn llawn cwestiynau.

Nid oedd yn disgwyl atebion bob tro, gwell ganddi ddyfalu, pwysu ac ystyried cyn dod o hyd i ateb ei hunan yn y pen draw. Y ddau yn taflu cwestiynau a syniadau at ei gilydd a Fynn yn darganfod yn aml bod yr athro a'r disgybl yn cyfnewid lle. Gan mai pori ym meysydd mathemateg a gwyddoniaeth roddai fwyaf o bleser i Fynn, yn naturiol felly, mewn byr amser, roedd Anna a'i brwdfrydedd yn gydymaith perffaith iddo wrth iddynt geisio darganfod cyfrinachau'r byd mawr o'u cwmpas.

Roedd Fynn yn berchen ar ddwy olwyn fetel ynghlwm wrth ei gilydd mewn cadwyn. Wrth ddod ar eu traws dyma Anna'n penderfynu mae Mister God oedd un ohonynt. *"And the other one is me. Mister God goes right through my middle and I go through Mister God's middle."* Hyn yn ei harwain i'r canlyniad *"Every person and everything that you know has got Mister God in their middle."* Tro arall mae'n egluro i Fynn *"Not everybody knows this but Mister God waits outside us and knocks to come in. We open the door, he doesn't break it down, he waits."*

I Anna roedd pob dydd yn hynod o gyffrous a phob darganfyddiad yn cadarnhau ei balchder mawr tuag at ddawn a holl wybodaeth Mister God. A Fynn yn ofalus iawn ohoni, yn dra amyneddgar ac yn y pen draw yn siŵr o fod yn barod i gyfaddef mae "O enau plant bychain... "





Gair Groeg yw ‘agape’. Fe ddywedwyd am yr iaith honno mai dyma’r iaith gyfoethocaf yn y byd am fod un gair yn cyfleu sawl ystyr gwahanol. ‘Cariad’ yw ystyr ‘agape’. Ond pa fath o gariad?

Mae cariad rhwng bachgen a merch; cariad teuluol; cariad rhywiol; cariad corfforol; cariad meddyliol ... a chariad, fel agape, sy’n ein galluogi i garu gelynion. Cariad Cristnogol yw hwnnw.

Atgoffwch fi i ofyn i Delyth Pollard a oedd gan ei gŵr, Geoff, berthynas a ddarlithiai mewn Groeg ym Mangor ym mhym degau’r ganrif ddiwethaf. Pollard oedd cyfenw’r darlithydd amyneddgar a geisiodd ddysgu gramadeg Groeg i griw di-glem o fyfyrwyr Coleg Bala-Bangor. Gofynnodd i un stiwdant i gyfieithu darn o Roeg clasurol i’r Saesneg.

Bu’n aros yn hir. “Mae nhw’n dweud,” meddai Pollard, “y gall mwnci cyfansoddi simffoni os byddwch chi’n ddigon amyneddgar,” gan ychwanegu “*Here we go, waiting for the symphony!*.”

Ddechrau’r ganrif yma roedd ‘na gronfa ariannol gan yr Annibynwyr o’r enw ‘Agape’. Bwriad y gronfa oedd helpu capeli i genhadu yn y gymuned. Wn i ddim a fanteisiodd Bethlehem ar y gronfa ond gwnaed cais gan Bethel Caerffili am help gan y gronfa honno. Gan fod nifer o stadau tai anferth yn cael eu codi yn nhref Caerffili, a theuluoedd newydd yn symud i fyw i’r ardal, un o gyfrifoldebau Cylch Ymweld Bethel oedd ymweld â’r stadau newydd a gwahodd y teuluoedd i ymuno ym mywyd Cristnogol y dref.

Bu’r cais yn llwyddiannus. Paratowyd taflen

liwgar, ddeniadol, i’w dosbarthu i ddeiliaid y stadau tai. Ar y daflen roedd manylion perthnasol am holl addoldai y dref (lleoliad y gwahanol eglwysi a chapeli, amseroedd yr oedfaon, rhifau ffôn ac ati) a’r cyfan wedi ei argraffu yn broffesiynol.

Y gwaith pennaf at y gwanwyn a’r haf hwnnw oedd dosbarthu’r taflenni. Fe dargedwyd Stad Castell Maen. Y bwriad oedd cael nifer o’r aelodau ifanc i gydweithio gydag aelodau hŷn i fynd o ddrws i ddrws. Nid gwithio taflenni trwy dwll llythyrau oedd yr amcan (*junk mail* yw hynny). Yr her i ni oedd cyfarch y sawl a ddeuai i’r drws a chynnig taflen liwgar i’w chadw, gan esbonio’r cynnwys ac ateb unrhyw gwestiwn.

Wedi’r dosbarthu, roedd angen asesu’r ymateb. Sut dderbyniad gafwyd?

Roedd hi’n ymgyrch fentrus. Cnocio drysau heb wybod dim am y teuluoedd oedd yn byw yno na sut groeso a gaem. Roedden ni wedi rhagdybio mai pobol yn symud i Gaerffili o ardaloedd cyfagos fyddai’r deiliaid. Yn amlach na pheidio, pobol yn symud o un rhan o’r dref i ran arall oedden nhw.

At ei gilydd roedd yr ymateb ar stepen y drws yn foneddigaidd. Nid ymhob tŷ chwaith. Ond mae modd troi hynny o fantais. Dwi’n cofio un o’r aelodau iau a minnau yn ymweld ag un tŷ lle nad oedd fawr groeso. Roedd y dyn agorodd y drws yn gwisgo crys tîm pêl droed Lerpwl. Cawsom wybod ganddo, yn fygythiol, ble i stwffio’n taflen!



“Dwi’n sylwi’ch bod chi’n gwisgo crys Lerpwl,” meddwn i. “*What about it?*” oedd yr ymateb anghynnes. Dywedais wrtho mai o Anfield, cartref tîm pêl droed Lerpwl, y daeth y sylwebaeth radio Gymraeg gyntaf erioed ar gêm bêl droed ryngwladol (a minnau’n sylwebu). Newidiodd ei dôn ar unwaith a chawsom sgwrs ddifyr am gewri Anfield – er mawr ddifyrrwch i’r ferch ifanc oedd gyda mi, yn enwedig felly pan ofynnodd am gopi arall o’r daflen!

Wedi’r cyfan, caru gelynion yw ystyr

‘agape.’ *Up the Swans!*



***Rhyfeddodau'r Wawr***

*"Rhyfedd fu camu'n ddi-rybudd i'r wawrddydd hardd  
A chyrraedd sydyn baradwys heb groesi lorddonen."*

Chi'n iawn. Robert Williams Parry – nid fi – bia'r cwpled ac ma' 'na o leia ddau reswm amlwg i brofi hynny! I ddechre – dwi ddim yn fardd ! Ond hefyd – fel y ma' Carol bob amser yn ddigon parod i weud – dyw'r "wawrddydd hardd" ddim yn olygfa gyfarwydd i fi! A gweud y gwir, dwi ddim yn credu mod i wedi codi gyda'r wawr ers dyddie coleg pan ges i jobyn dros wylie'r haf yn mynd ar rownd lâth i'r Co-op lleol ar y Waun!! Ond i fi, does dim rhaid codi'n blygeiniol i gael rhannu rhyfeddod Bardd yr Haf wrth werthfawrogi byd natur o'n cwmpas – na chroesi lorddonen – ne' hyd yn oed groesi i'r Gogledd at y llecyn sanctaidd hwnnw – Dyffryn Nantlle. (Wel, sanctaidd i ambell aelod o braidd Bethlehem ta beth!) A chartre wrth gwrs i RWP. Dwi ddim eto wedi clywed "mynyddlais y gwcw yng nghoed yr ardd" ond yng nghoed yr ardd yn ein tÿ ni fe lwyddes i gael cip ar "y cwingod yn deintio led cae o'u twnelau"

A ble cyrhaeddodd e ?



"Mae bro rhwng mor a mynydd  
Heb arni staen na chraith "



"Ond lle bu'r aradr ar y ffridd  
Yn rhwygo'r gwanwyn per o'r pridd"  
Gallwn i gyd hefyd uniaethu â'r geirie



Ac ma'r profiade a ysbrydolodd y delyneg "Eifionydd" wedi bod yn brofiade i ninne hefyd eu trysori o gwmpas Pentyrch, yn enwedig yr adeg yma – cyfnod y cerdded a'r crwydro . Maen nhw yma i ni eu mwynhau wrth fentro ar hyd yr holl lwybre a ddâth mor gyfarwydd inni yn ddiweddar, heb adael ein milltir sgwâr yng nghysgod Mynydd y Garth. O ble ddihangodd Williams Parry i Eifionydd ?



"A llonydd gorffenedig  
Yw llonydd y Lon Goed"



"O olwg hagrwrch cynnydd  
Ar wyneb trist y gwaith"

Ac wrth grwydro'n hamddenol ar hyd y "tawel gwmwd hwn" ro'dd Williams Parry'n amlwg dros 80 mlynedd yn



ôl yn cydymffurfio gyda chanllawiau a chyfyngiadau cyfnod y Covid !

"A rhodio'i heddwch wrthyf hun  
Neu gydag enaid hoff cytûn"!

Hyd y gwn i, dim ond Ann a Rhodri a Joy ac Eifion o griw'r pentre sy'n aelode o deulu Bethlehem sy wedi bod yn ddigon ffodus i glywed cân y gog, ond ma' pawb ohonon ni sy' wedi bod yn crwydro'r llwybre wedi cael y pleser o weld y clyche yn garped lliwgar dan frige'r coed .



"Dyfod pan ddel y gwcw" o'dd eu hanes leni eto, yn rhannu

"eu gwyllt atgofus bersawr  
A'r hen lesmeiriol baent "

**Awydd anfon cyfraniad  
i'r rhifyn nesaf o  
"Gair bach Bethlehem"?**

*Ydych chi wedi tynnu neu ganfod ambell lun ac awydd  
adrodd am y cefndir?*

**Anfonwch air erbyn Mehefin 3ydd**

**at: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)**

**Diolch i bawb sydd wedi**

**cyfrannu i'r**

**10 rhifyn o**

**Gair bach Bethlehem.**

A beth am hwn, a'i "amryliw blu fel hydref ar ei fynwes lefn"



Na nid "ar dir y lord" y gwelwyd ei "drem drahaus" na chlywed "clochdar balch ei big" ond yn yr ardd gefen yn Dolcoed lle mae'n rhodio'n urddasol bob dydd, a chware teg i ni, mae 'na groeso iddo fe – dy'n ni ddim yn ei fygwth wrth rannu awydd Williams Parry

"Mi fynnwn heno gael dy gig  
Yn rhost amheuthun ar fy mord."

Na – braf cael ei gwmni – er ei rodres amlwg!

Fwy nag unweth hefyd ry'n ni weld yr hen gadno – nid "ganllath o gopa'r mynydd" fel Llynog RWP ond yn y cae tu ôl i'r tŷ! Yno y "llwybreiddiodd ei ryfeddod prin o'n blaen" sawl tro. Ond yn anffodus i ni wnaeth e ddim "sefyll yn syfrdan uwchben ei untroed oediog" er mwyn i ni gael tynnu llun. Yn hytrach "llithrodd ei flewyn cringoch dros y grib cyn i fi lwyddo i gael gafel ar y camera! Tro nesa falle

le –y filltir sgwâr – boed honno yn Nyffryn Nantlle, Eifionydd ne' yma wrth droed Mynydd y Garth. Yn y Gogledd y cafodd Bardd yr Haf ei ysbrydoliaeth – er iddo agor un o Gerddi'r Gaeaf gyda'r geirie:

"Mi fûm yn gweini tymor yn ymyl Ty'n y Coed!"

Na – ma'r un trysore gyda ni yn cwato ar gyrion y llwybre sy'n gweu eu ffordd o gwmpas y pentre – ond am nawr ry'n ni am eu cadw nhw'n gyfrinach "rhwng gwyr Pentyrch â'i gilydd".

Rwy am fynd nôl at Ryfeddodau'r Wawr cyn cwpla, gan ofyn cwestiwn. A oes yna awgrym bod R Williams Parry yn y tri chwpled sy'n cloi'r soned mewn rhyw ffordd ryfedd wedi dangos drych i ni o'r drefen newydd sy' wedi dod i'n rhan ni i gyd dros y cyfnod dyrys diweddar. Yr haul yn tra rheoli fel mae wedi gwneud ers cyhoeddi'r cloi; dynoliaeth yn diodde, ac yn gaeth i'n cartrefi; yr awyr yn gliriach, yn lanach, heb fwg a nwyon diwydiant a thrafnidiaeth; a natur yn ei holl agwedde yn ara' bach yn dechre ad-feddiannu'r byd o'n cwmpas.

"Rhyfeddach fyth o haul sy'r tu arall i'r garn  
Fai iti aros lle'r wyt a chadw dyn yn ei deiau  
Nes dyfod trosolion y ddaear a'u chwalu'n sarn  
Rhag dyfod drachefn amserddoeth fwg ei simneiau  
Ei wared o'i wae a'r ddaear o'i wedd a'i sawyr  
Cyn ail harneisio dy feirch i siwrneiau'r awyr."

Ia, fi sydd 'ma eto, Dafi Rhys, wedi dŵad 'nol i'ch cyfarch wedi sawl wythnos o feudwyo! Da'chi'n cofio i mi ymddangos yn ail rifyn Gair bach Bethlehem, gan gyflwyno fy hun yn y golofn honno dan y pennawd "Pwy 'di Pwy". 'Roeddwn wedi rhyw obeithio y byddai mwy ohonoch wedi dilyn fy esiampl, ond cyndyn o wneud ydi pawb mae'n amlwg! Os felly mi fanteisiaf ar y gofod i'ch diweddarau ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd i mi dros y ddeufis diwethaf 'ma.

Wele, yn y lle cyntaf, mi dwi ddau fis yn hŷn nag oeddwn i – dwi'n wyth mis oed erbyn hyn (sylwer bod fy sgiliau mathemateg yn datblygu yn syfrdanol o gyflym!)

Dwi ddim yn siŵr os ydwi'n barod i fynd i'r ysgol eto, ond mae'n ymddangos bod 'na lot o wyliau i'w cael yno. (Tydi fy mrawd mawr heb fod yno ers wythnosau beth bynnag!) Mae Dad hefyd yn cael lot o wyliau – felly dwi'n edrych 'mlaen at ddechrau gweithio yn ogystal!

Dwi wedi dysgu rowlio ar y llawr erbyn hyn – dwi ddim yn gorfod gorwedd ar fy nghefn trwy'r dydd mwyach, yn edrach ar y gwe pry cop yng nghorneli nenfwd pob stafell! A dwi wedi dechrau bwyta bwyd go iawn hefyd – wel, dyna be ma' Mam yn ei alw fo beth bynnag.

Cofiwch pan mae hi yn troi ei phen i ddwrddio Wil, mi fyddaf yn poeri peth ohono allan drwy ochr fy ngheg, ac yna gwenu a gyrglo pan mae Mam yn troi 'nôl ata'i. Dwi'n gwneud yr un fath pan dwi wedi llenwi fy nghlwt hefyd!

Mae tŷ ni'n ffinio â Pharc Thompson, ac i'r fan honno 'da ni'n anelu bob dydd am ein orig o awyr iach. Er, os dwi wedi deall petha'n iawn, mae Prif Weinidog Cymru yn caniatáu i ni fynd allan fwy nag unwaith y dydd erbyn hyn. Ond wir yr, dwi ddim isio mynd rownd Parc Thompson ddwy waith y dydd, gan ddilyn, a cheisio osgoi, yr hen hwyaid swnllyd yna sydd o gwmpas y lle; heb anghofio'r colomennod a'r gwylanod a'r brain i gyd sy'n gadael eu hôl ymhobman, ac sy'n sticio i olwynion y goets, a ninnau wedyn yn gadael llwybr reilwe o fudreddi o'n hôl. Ond mae Mam yn hoffi cael panad yn Lufkin, y tŷ bach a newidiwyd yn ddiweddar yn dŷ coffi wrth fynedfa'r Parc - jest gobeithio bod nhw'n cofio golchi'r llestri yn y lle iawn 'te!

Dwi wedi cael mwy o ddannedd, ac mae fy mochau'n goch, ond mae fy mrawd mawr yn colli ei rai o. Ydi hi'n werth cael dannedd deudwch, os mai dim ond am rhyw bedair i bum mlynedd y mae nhw'n para?

Mae o'n sôn am roi ei ddannedd o dan glustog ei wely gyda'r nos gan ddisgwyl i ryw Dylwyth Teg ddod o rywle a rhoi arian yn lle'r dant erbyn y bore. Ond 'does 'na ddim hawl gan y Tylwyth Teg i deithio y dyddiau yma nag oes – mae nhw hefyd dan "locdown" siŵr o fod! Er bod Wil, o gofio, wedi sôn o'r blaen wrthyf am y goeden Tylwyth Teg yn y Parc...

Fe soniais o'r blaen am y fraint a gefais o fod yn rhan o gyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul ym Methlehem. Wel, cefais siom o'r mwyaf na ches i ddim cynnig bod yn rhan o oedfa Cymorth Cristnogol y Sul o'r blaen! 'Roedd Wil fy mrawd â rhan serch hynny, a nifer o frodyr a chwirydd eraill sy'n mynd i'r Ysgol Sul – da iawn bawb a gymerodd ran ynte!

Ond fe fydd y rhai craff ohonoch wedi sylweddoli fy mod wedi cael fy mhig i mewn yn y diwedd. Os gwrandewch yn astud ar gyfraniad Wil i'r oedfa, fe'm clywir, yn ôl un o hen arferion sêt fawr Bethlehem, yn porthi yn y cefndir!

Er bod 'na "lawer sgil i gael Wil i'w wely" yn ôl y ddihareb, yn yr achos yma, Dafi nid Wil a orfu!



## Darganfod Cyfrinach Hapusrwydd

## Wynford Ellis Owen


Yng Ngorffennaf 1992 mi ges i'r cyngor gorau dwi erioed wedi'i gael. Ro'n i'n adfer o'm alcoholiaeth yn Rhoserchan, canolfan driniaeth yng Nghapel Seion ger Aberystwyth, ar y pryd. Fel rhan o'm hadferiad roedd disgwyl inni weithio yn yr ardd (roedd y ganolfan yn hunangynhaliol o ran llysiâu'r ardd). Wrth i mi balu yn yr ardd un diwrnod dyma Pete y garddwr yn pwysu ar ei raw a deud hyn wrtha i, "Wynford," medda fo, "os byddi di byth mewn trwbl - rho, rho, rho."


Yn y dyddiau cynnar wedi imi adael y ganolfan, pan nad oeddwn i'n teimlo'n rhy dda, mi fyddwn i'n gweithredu ar gyngor Pete drwy sgwennu llythyrau i gadw mewn cysylltiad hefo'r rhai oedd yn y ganolfan yr un pryd â mi. Erbyn imi orffen sgwennu'r llythyra', bob tro, mi fyddwn i'n teimlo'n well.

Erbyn hyn rydw i wedi dod i ddeall cyfrinach hapusrwydd. A'r gyfrinach yw - datblygu i fod yn rhoddwr yn hytrach nag yn gymerwr. Rhoi, rhoi, rhoi, fel dwedodd Pete.

### Y WERS?

Os ydach chi'n teimlo'n isel, yn pryderu am rywbeth, neu jest yn cael un o'r hen ddyddiau diflas, annifyr yna, meddyliwch am rywbeth - unrhywbeth - fedrwch chi wneud i rywun arall. Dwi'n addo i chi y byddwch chi'n teimlo'n well yn syth. Cofiwch rwan: cyfrinach hapusrwydd yw datblygu i fod yn rhoddwr yn hytrach nag yn gymerwr. Ond gofawch bod y rhoi y math o roi nad oes pris arno





Soniais y tro o'r blaen am un o fawrion yr 20fed ganrif, a bod amser yn yr hunan-ynysu i edrych eto ar y ddwy gyfrol o'i bregethau sydd yn fy meddiant ers dyddiau coleg.

Edrychais tua'r ddaear — afluniaidd a gwag ydoedd; tua'r nefoedd — ond nid oedd yno oleuni. Edrychais tua'r mynyddoedd, ac wele hwy'n crynu, a'r holl fryniau yn gwegian. Edrychais, ac wele, nid oedd neb oll; ac yr oedd holl adar y nefoedd wedi cilio. Edrychais, ac wele'r dolydd yn ddiffeithwch, a'r holl ddinasoedd yn ddinistr, o achos yr ARGLWYDD, o achos angerdd ei lid. Oherwydd fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: "Bydd yr holl wlad yn anrhaith, ond ni wnafr ddiwedd arni. Am hyn fe alara'r ddaear, ac fe dywylla'r nefoedd fry, oherwydd imi fynegi fy mwriad; ac ni fydd yn edifar gennyf, ac ni throf yn ôl oddi wrtho." Rhag trwst marchogion a phlygwyr bwa y mae'r holl ddinas yn ffoi, yn mynd i'r drysni ac yn dringo i'r creigiau. Gadewir yr holl ddinasoedd heb neb i drigo ynddynt. A thithau'n anrheithiedig, beth wyt ti'n ei wneud wedi dy wisgo ag ysgarlad, ac wedi ymdrwsio â thlysau aur, a lliwio dy lygaid? Yn ofer yr wyt yn dy

wneud dy hun yn deg. Bydd dy gariadon yn dy ddirmygu, ac yn ceisio dy einioes. (Jeremeia 4:23-30)

"Er i'r mynyddoedd symud, ac i'r bryniau siglo, ni symuda fy ffyddlondeb oddi wrthyt, a bydd fy nghyfamod heddwch yn ddi-sigl," medd yr ARGLWYDD, sy'n tosturio wrthyt. (Eseia 54:10)

Y sawl a ffy o drwst y dychryn a syrth i'r pwll, a'r sawl a gyfyd o ganol y pwll a ddelir yn y fagl. Oherwydd agorir ffenestri'r uchelder, ac fe gryna seiliau'r ddaear; dryllir y ddaear yn deilchion, ei rhwygo drwyddi a'i hysgwyd yn ffyrnig; bydd y ddaear yn gwegian yn ôl a blaen fel meddwyn, yn siglo fel caban gwylwr; bydd pwysau ei chamwedd mor drwm arni, fel y bydd yn syrthio heb godi byth mwy. (Eseia 24:18-20)

Pan gymerodd Tillich destun i'r bregeth, sydd hefyd yn deitl y llyfr, o un o'r adnodau uchod, roedd llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae erchyllterau blynyddoedd y rhyfel, a hefyd Hiroshima a Nagasaki, a'r grymusterau difaol a dinistriol oedd ar gerdded ac yn cael eu datblygu, yn dylanwadu'n drwm ar y bregeth. Mae geiriau dau o broffwydi mawr yr Hen Destament o'r gorffennol pell, yn sefyll ac yn siarad heb fod angen traethu pellach. Roedd sylfaeni gwareiddiad wedi cael eu siglo. Mewn ffordd wahanol mae Cofid-19 wedi siglo'r sylfaeni heddiw, sylfaeni yr ydym ni a'n tebyg wedi'u creu ac adeiladu'n bywydau arnynt. Ond pwy sy'n gwranddo ar lais y proffwydi heddiw?

Mae pregeth Tillich yn ysgytwol o amserol. Un dyfyniad yn unig o baragraff ola'r bregeth. Mae wedi cyfeirio'n gynharach at yr hyn mae'r Beibl yn ei ddweud, a'r hyn rydym ni'n ei wybod er, efallai, ddim yn hoffi meddwl amdano – y mae yna ddechrau a diwedd i'r byd.

*"Often the whole earth succeeds in making its creatures forget its end, but sometimes these creatures feel their earth is beginning to grow old, and that its foundations are beginning to shake. For the earth carries its end within it. We happen to live in a time when very few of us, very few nations, very few sections of the earth, will succeed in forgetting the end. For in these days the foundations of the earth **do** shake. May we **not** turn our eyes away; may we not close our ears and our mouths! But may we rather see, through the crumbling of a world, the rock of eternity and the salvation which has no end."*

## Diolch

Gair o ddiolch sydd gen i. Rwyf mor ddiolchgar i bawb o gyd-aelodau Bethlehem sydd wedi cysylltu â mi ar lafar, drwy'r post neu negeseuon ar-lein wedi i mi golli 'mrawd. Mae'r rhai ohonoch sy'n gyd-bentrefwyr ac yn gerddwyr dyddiol wedi bod mor garedig a galw am sgwrs ar garreg y drws. Mae pob gair o gysur wedi bod yn gymorth a chefnogaeth dros gyfnod lle bu'r amodau mor ddiarth i ni i gyd. Wedi bron i ddwy flynedd o ymweld â Hywel yn gyson, daeth y cyfyngiadau i'n cadw rhag mynd draw i Langennech a bu'n rhaid dibynnu ar sgwrsiau ffôn neu'r cyfryngau cymdeithasol. Diolch i chi oll am gofio amdanon ni - rwy'n gwerthfawrogi'n fawr.

Margaret Roberts, Pentyrch



Mae Rwsia yn enfawr. Fe gymerodd hi chwe wythnos i mi deithio ar y trên ar draws Siberia o Moscow yn y gorllewin i Vladivostock yn y Dwyrain pell. Nid bod y daith yn cymryd mis a hanner, ond roedd gofyn i mi ymweld a tua ugain o orsafoedd darlledu annibynnol ar y ffordd.

George Soros oedd yn talu. Fe gasglodd o filiynau o bunnau ar gefn trwbl y bunt nôl yr wythdegau. Un o ddwyrain Ewrop oedd Soros ac yn awyddus i fuddsoddi mewn canolfannau darlledu oedd yn annibynnol o'r blaidd gomiwnyddol. Cyrhaeddais Kazan tua hanner ffordd drwy y siediw. Y Volga ydi un o afonydd mawr Rwsia ac i gyrraedd Kazan mae gofyn ei chroesi, ar draws pont rheilffordd sydd yn ffin rhwng Rwsia Ewrop a Rwsia Asia. Ar y lan orllewinol mae yr Eglwys Uniongred yn rheoli bywyd ysbrydol y trigolion. Ochr draw i'r bont y grefydd Islamaidd sydd yn denu y werin i'w mosg. Mae y bont rheilffordd yn hir oherwydd bod y Volga yn llydan, ac yng nghanol yr afon mae ynys Sviyazhsk.



Nid fy mod yn medru gweld dim dwr oherwydd roedd yr afon wedi rhewi - wedi rhewi yn gorn, fel y byddan nhw'n dweud. Roedd loriau, ceir a bysus yn teithio ar draws o'r tir mawr i'r ynys - taith o tua deg munud. Cerddais ar draws yr ia, gan sylwi nifer o bysgotwyr yn eistedd wrth dwll dwfn yn yr ia yn aros am frathiad. Dau adeilad o bwys sydd ar Sviyazhsk - Eglwys Gadeiriol a Mynachlog. Mae'n debyg bod y ddau wedi bod yn garchar i'r unigolion hynny oedd angen eu ynysu o gymdeithas, yn ôl y blaidd gomiwnyddol – 'Gwlag' ynysig ac oer.

Tua blwyddyn cyn i mi ymweld ar lle y cyflwynwyd yr adeiladau yn ôl i ofal y Patriarch Uniongred wedi deugain mlynedd o gam ddefnydd gan y wladwriaeth. Mynachlog pren oedd cartref y deg ar hugain o fechgyn ifanc oedd a'u bryd ar fynd i'r Weinidogaeth.

"Where you come from?" gofynnodd un i mi dros baned o goffi cryf. "Wales? I have a surprise for you".

Daeth tua pump o'r cyw bregethwyr gyda mi ar draws y sgwâr enfawr o flaen yr eglwys gadeiriol. I fewn drwy y drysau coed i lawr yr 'Assumption Cathedral' oedd yn dyddio'n ôl i'r 16 ganrif, pryd oedd *Ivan the Terrible* yn ei anterth ac am gyflwyno Cristnogaeth i'r Rwsia oedd yn Asia. Cwblhawyd yr adeiladu yn ystod teyrnasiad Peter the Great, oedd, yn ôl hanes, â llawer mwy o ddiddordeb mewn concro'r Gorllewin nag ymestyn Rwsia Fawr ar hyd llwybr y Trans Siberian Railway.

"Dowch yma", meddai un or mynaich gan agor llyfr oedd wrth yr allor. "O Gymru mae hwn" - Beibl Cymraeg. Agorais y clawr gan ddarllen cyfarchiad yn y Gymraeg, gan Yr Archesgob Gwilym O. Williams at Batriarch yr Eglwys Uniongred!

### Hiwmor o'r cwrdd

*Esgob yn diolch i offeiriad am bregeth oedd "fel tangnefedd a thrugaredd". Yr offeiriad y ddiolchgar iawn nes i'r Esgob ychwanegu "tangnefedd sydd goruwch pob deall a thrugaredd sy'n para i fywyd tragwyddol."*

~\*~\*~\*~\*~

*Rhywun yn holi'r Parchedig H. T. Jacob, Abergwaun "Faint odd 'da chi yn y cwrdd heddi"? "Wel, " medde Jacob "o'dd dim cymint â hynny tu fewn ond o'dd cannoedd tu fas."*

~\*~\*~\*~\*~

*Pregethwr : "Yde chi'n gallu nghlywed i yn y cefn"? Ateb "Ydw. Ond fydde dim ots gen i newid lle efo rhywun arall."*

~\*~\*~\*~\*~

# ODLAU'R GARTH

## Dirgelion

Ochneidiwn fel hen ddyn, nid byw ond bod,  
mynd ling-di-long wrth gicio caniau gwag  
nes cwrdd â hwn, tresmaswr yn fy myd  
gribiniaï'r traeth. Fe hoffwn gau ei geg.

Daw cais i glirio atig, diawl o stad,  
ond gwenu wrth i olau dydd ddiflannu:  
o dan hen gynfas drewllyd, lliw fel rhwd,  
mae trysor cudd, dyddiadur hen dad-cu.

Fe welaist fôr yn tasgu, llamu'n fynydd,  
fe welaist hwrod pert yn Valparaiso.  
Diodde llach is-gapten heb ddim dannedd  
a cholli bys mewn bar yn San Francisco.

Os ysbryd o'n i'n cripad mewn cysgodion,  
fe fentraf rownd yr Horn a'r byd yn gwegian.

*Martin Huws*

**Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o "Gair bach Bethlehem"?**

*Ydych chi wedi darganfod hen lun, hen lyfr neu drysor?*

*Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Mehefin 3 at: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com) Diolch i bawb.*



*Ac i gwblhau gwaelod y dudalen olaf y tro hwn, dyma'r diaconiaid y Methlehem tua'r adeg y bu i T J Davies ildio'r ofalaeth i Gareth Rowlands.*

**(llun: Robin Griffith, Creigiau)**